ATODLEN 2

Gofynion ardystio

# RHAN 5

## Llysiau

**Cwmpas Rhan 5**

**44.** Mae'r Rhan hon yn rheoleiddio'r mathau o lysiau yn Atodlen 1.

**Mathau a ganiateir o hadau llysiau**

**45.** Rhaid i hadau llysiau fod yn—

(a) hadau cyn-sylfaenol;

(b) hadau sylfaenol; neu

(c) hadau ardystiedig; neu

(ch) hadau safonol.

(2) Caiff yr hadau fod yn gymysgedd o wahanol amrywogaethau o'r un rhywogaeth o lysiau, ar yr amod bod pob amrywogaeth yn y cymysgedd yn hadau safonol.

**Ystyr "hadau cyn-sylfaenol"**

**46.** Hadau cyn-sylfaenol yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o genhedlaeth gynharach na hadau cyn-sylfaenol gan, neu o dan gyfrifoldeb, y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth; a

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu—

(i) rhagor o hadau cyn-sylfaenol;

(ii) hadau sylfaenol; neu

(iii) gydag awdurdod ysgrifenedig y bridiwr, hadau ardystiedig.

**Ystyr "hadau sylfaenol"**

**47.**—(1) Hadau sylfaenol yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o dan gyfrifoldeb y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth;

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu hadau ardystiedig.

(2) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys hadau y bwriedir iddynt fod yn gydran o amrywogaeth hybrid o lysieuyn.

**Ystyr "hadau ardystiedig"**

**48.** Hadau ardystiedig yw hadau—

(a) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o genhedlaeth gynharach na hadau sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol;

(b) a fwriedir yn bennaf ar gyfer cynhyrchu llysiau.

**Ystyr "hadau safonol"**

**49.** Hadau safonol yw hadau a fwriedir yn bennaf ar gyfer cynhyrchu llysiau, ac sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel hadau sydd â phurdeb amrywogaethol a hunaniaeth amrywogaethol digonol.

**Gofynion cnydau a hadau**

**50.**—(1) Rhaid i archwiliadau o'r cnydau gan arolygwyr cnydau swyddogol neu drwyddedig gael eu cynnal yn unol ag Erthygl 2(4)(A) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau(**1**) ac Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno, a rhaid i'r cnwd fodloni'r amodau yn yr Atodiad hwnnw.

(2) Rhaid i'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gael eu samplu yn unol ag Erthygl 25 o'r Gyfarwyddeb honno ac Atodiad III iddi, a rhaid iddynt fodloni'r amodau yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys yn achos hadau safonol.

(4) Rhaid i glefydau ac organebau niweidiol sy'n lleihau defnyddioldeb yr hadau fod ar y lefel isaf bosibl.

(5) Ar ôl eu marchnata, mae hadau llysiau yn ddarostyngedig i reolaeth gan Weinidogion Cymru, o ran hunaniaeth amrywogaethol a phurdeb amrywogaethol.

(**1**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).